Polisi ynghylch Hawlfraint ym maes Addysg Uwch

I bwy mae'r Polisi hwn yn berthnasol?

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i ddysgwyr sy'n dilyn rhaglenni AU y mae un o'r sefydliadau dyfarnu AU a ganlyn wedi awdurdodi GLLM i'w darparu;

- Edexcel/Pearson
- Awdurdod Cymwysterau'r Alban (SQA).
- Rhaglenni AU a ddilyswyd gan Brifysgol Bangor er mwyn i Grŵp Llandrillo Menai eu darparu

Dylai dysgwyr sy'n dilyn rhaglenni AU a ddyfernir gan sefydliadau eraill adolygu'r polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar gael ar Amgylchedd Dysgu Rhithiol y Rhaglen, yn Llawlyfr y Rhaglen ac ar wefan y sefydliad dyfarnu.

Pwrpas y Polisi

Yn y ddogfen hon, amlinellir safbwynt Grŵp Llandrillo Menai parthed hawlfraint.

Datganiad Polisi

Mae gan y Grŵp rwymedigaeth gyfreithiol i orfodi diogelu hawlfraint mewn perthynas â defnyddio deunyddiau trydydd parti.

Mae hawlfraint yn diogelu gweithiau gwreiddiol – llenyddol, artistig, dramatig a cherddorol, recordiadau sain, ffilmiau neu ddarllediadau, a threfniannau teipograffig (dyluniadau/gosodiadau) o argraffiadau a gyhoeddwyd. Caiff llyfrau, papurau a chylchgronau, cerddoriaeth, gwaith celf a ffotograffau, ffilmiau, rhaglenni teledu a radio, meddalwedd a gemau cyfrifiadurol eu diogelu gan hawlfraint. Gall perchennog hawlfraint drwyddedu copïau neu addasiadau o'r gwaith (e.e. cyfieithiadau, hawl i wneud ffilm ar sail llyfr ac ati). Mae hawlfraint am ddim ac yn awtomatig.

Fel rheol, derbynnir bod gwybodaeth a geir ar y Rhyngrwyd wedi'i diogelu gan hawlfraint, ac felly dylid ei thrin yn union fel y byddech yn trin gwaith argraffedig.

Yn y Polisi hwn, amlinellir safbwynt y Grŵp ar y defnydd o ddeunyddiau sydd dan hawlfraint.

Dull Gweithredu

Staff

Cewch gopïo deunydd os:

- mai chi a'i hysgrifennodd, ac os nad ydych wedi trosglwyddo'r hawlfraint i rywun arall
- oes gennych ganiatâd ysgrifenedig perchennog yr hawlfraint i wneud hynny
- cafodd ei gyhoeddi ddiwethaf fwy na 70 mlynedd yn ôl, neu os oes mwy na 70 mlynedd ers y flwyddyn galendr pryd y bu farw'r awdur, pa un bynnag yw'r diwethaf.

Y Grŵp yw perchen yr holl Eiddo Deallusol a grëwyd gan Staff:

- Yn ystod eu cyflogaeth a/neu pan oeddynt yn gweithio i'r Grŵp; neu
- Gan ddefnyddio adnoddau'r Grŵp; neu
- Wrth wneud gwaith sydd y tu allan i'w dyletswyddau arferol ond a osodwyd yn waith penodol i Staff

Pan fyddwch yn casglu gwybodaeth i'w rhoi ar-lein (e.e. ar gyrsiau Moodle), gwnewch yn siŵr mai chi piau hawlfraint y deunyddiau a ddefnyddiwch, neu sicrhewch ganiatâd perchennog yr hawlfraint i'w rhoi ar-lein. Ni ddylech lanlwytho delweddau, ffotograffau, ffeiliau pdf (copïau electronig o ddogfennau), diagramau ac ati, na defnyddio clipiau sain/fideo, heb gael caniatâd perchennog yr hawlfraint, rhag ofn i chi dorri deddf hawlfraint.

Pan fyddwch yn creu dolennau i gynnwys ar-lein allanol, fel arfer da, ceisiwch greu dolennau i hafan gwefan arall, yn hytrach nag i dudalennau eraill. Os nad yw hyn yn bosibl, er cwrteisi, mae hi wastad yn arfer da anfon neges e-bost i safleoedd yn egluro eich bod yn creu dolen o'ch safle chi i'w safle hwy. Bob tro y byddwch yn creu dolen i safle, eglurwch fod y defnyddiwr yn symud o'ch safle chi i safle deiliad hawlfraint arall.

Mae'r un rheolau'n berthnasol hyd yn oed os edrychir ar eich cynnwys electronig yn fewnol yn unig (e.e. ar y fewnrwyd).

Myfyrwyr
Mae 'delio teg' yn caniatáu i chi wneud un copi o 'faint rhesymol' o lyfr neu gyfnodolyn sydd dan hawlfraint i ddibenion ymchwil neu astudio personol yn unol â'r canllawiau a ganlyn, heb gael caniatâd penodol perchennog yr hawlfraint:

- un erthygl mewn un rhifyn o gyfnodolyn;
- un papur neu erthygl o set o drafodion cynhadledd;
- un bennod gyfan o lyfr;
- un stori fer neu gerdd o un gyfrol o straeon byrion neu gerddi, ar yr amod nad yw'r eitem a gaiff ei chopïo'n hwy na 10 tudalen;
- hyd at 5% o waith penodol
- dim ond i ddibenion astudio neu ymchwil personol y gallwch ddefnyddio'r copi; ni chewch ei drosglwyddo i unrhyw un arall;
- os ydych eisoes wedi cael copi o un rhan o lyfr, neu o un erthygl mewn rhifyn o gyfnodolyn, fel y nodwyd uchod, ni chewch wneud copi o ddeunydd arall yn yr un llyfr neu'r un rhifyn o gyfnodolyn heb ganiatâd ysgrifenedig perchennog yr hawlfraint.

Trwyddedau hawlfraint

Mae gan y Grŵp nifer o gynlluniau cyd-drwyddedu, sy'n galluogi staff (gyda rhai cyfyngiadau sydd wedi'u diffinio'n glir) i:

- Wneud copïau ac i sganio copïau o ddeunyddiau printiedig (Yr Asiantaeth Trwyddedu Hawlfraint - y CLA)
- Gwneud recordiadau o ddarllediadau teledu (trwydded yr Asiantaeth Recordio Addysgol [ERA] a Chynllun y Brifysgol Agored)
- Gwneud copïau niferus o erthyglau mewn papurau newyddion i ddibenion addysgu a gwybodaeth reoli (Asiantaeth Trwyddedu Papurau Newyddion – yr NLA)

Trwydded y CLA yw prif drwydded hawlfraint y Grŵp. Mae telerau trwydded y Grŵp yr un fath ar gyfer y ddarpariaeth Addysg Uwch a'r ddarpariaeth Addysg Bellach. Mae'r CLA'n gweithredu fel asiant i'r Gymdeithas Trwyddedu a Chasglu Breindaliadau Awduron (ALCS), Y Gymdeithas Trwyddedu Cyhoeddwyr ac amrywiol sefydliadau sy'n ymwneud â hawliau atgynhyrchu y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

Mae llungopïo gwaith sydd dan hawlfraint heb ganiatâd yn golygu torri cyfraith hawlfraint a gall arwain at gamau cyfreithiol neu achos troseddol a allai ddeillio ar ddirwyon sylweddol a/neu garcharu. Mae trwydded y CLA yn caniatáu llungopïo o lyfrau, cyfnodolion a chylchgronau.

Golyga hyn:

Bod gan staff a myfyrwyr GLLM hawl i wneud llungopïau o lyfrau a chyfnodolion a gyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig a gwledydd eraill y mae gan y CLA gytundebau cyfatebol â hwy.

Mae cyfyngiadau i faint y gellir ei gopïo o dan y Drwydded Hawlfraint. Os na chadwch o fewn y cyfyngiadau hyn, byddwch bron yn sicr o dorri cyfraith hawlfraint.

Beth a ganiateir?

Mae'r drwydded yn caniatáu i staff a myfyrwyr awdurdodedig (gan gynnwys dysgwyr o bell) gopïo rhannau (o destunau neu raffigwaith, neu o gyfuniad o destun a graffigwaith) o'r rhan fwyaf o lyfrau, cyfnodolion a chylchgronau a gyhoeddir yn y Deyrnas Unedig (a Thiriogaethau Mandadol eraill), os yw'r Grŵp yn berchen ar gopi o'r llyfr/graffigwaith. Dylech hefyd edrych ar restr y CLA o Gategorïau/Gweithiau Eithriedig.

Mae'r hawl sylfaenol i lungopïo'n cynnwys llungopïo'r canlynol (o bapur i bapur):

- hyd at 5% neu un bennod gyfan (pa un bynnag yw'r mwyaf) o lyfr;
- hyd at 5% neu un erthygl gyfan (pa un bynnag yw'r mwyaf) mewn un rhifyn o gyfnodolyn
- hyd at 5% neu un papur (pa un bynnag yw'r mwyaf) o set o drafodion cynhadledd
- hyd at 5% neu ddetholiad o straeon byrion neu gerddi, neu un stori fer neu gerdd sydd ddim yn hwy na 10 tudalen (pa un bynnag yw'r mwyaf)

- hyd at 5% neu un achos (pa un bynnag yw'r mwyaf) o adroddiad a gyhoeddwyd o weithrediadau cyfreithiol.

Nid yw'r cyfyngiadau hyn yn berthnasol i gopïau a chwyddwyd i bobl rannol ddall, ar yr amod y cyfyngir y copïau hyn i ddefnyddwyr o'r fath.

Gwneud nifer o gopïau

Gellir gwneud sawl copi o ddeunydd sydd dan drwydded, ond ni ddylid gwneud mwy na'r nifer o gopïau sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau bod copi gan bob myfyriwr sy'n dilyn y modiwl, ynghyd â'r darlithydd. NI chaniateir gwneud copïau systematig neu niferus o'r un deunydd trwyddedig, neu rai ohono, ar gyfer cwrs, y tu hwnt i'r cyfyngiadau a nodwyd uchod.

Gellir cael rhagor o wybodaeth ar wefan y CLA
http://fe.cla.co.uk/

Yr Asiantaeth Recordio Addysgol (ERA)

Mae Trwydded yr ERA'n galluogi'r Grŵp i recordio i ddibenion addysgol unrhyw ddarllediad radio neu deledu ac allbwn cebl sy'n eiddo i aelodau'r ERA, ac eithrio rhaglenni'r Brifysgol Agored sy'n dod o dan gynllun trwyddedu arall.

Mae'r drwydded yn cwmpasu pob math o ddarllediadau (ac eithrio rhaglenni'r Brifysgol Agored a darllediadau cebl/lloeren). Mae hyn yn cynnwys ffilmiau hir oddi ar yr awyr, os cânt eu defnyddio at 'ddibenion addysgol' yn unig.

Nid yw trwydded yr ERA'n rhoi awdurdod i berfformio recordiadau o fael cynulleidfaoedd preifat neu gyhoeddus sydd wedi talu i weld y perfformiad, nac yn awdurdodi defnyddio deunydd o'r darllediad i ddibenion hyrwyddol, gweinyddol neu fasnachol. Fel arall, mae ein trwydded yn caniatáu recordio, chwarae a chopïo'r recordiadau.

Caiff myfyrwyr sydd wedi cofrestru gyda'r Grŵp, ac aelodau o'r staff sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag addysg y myfyrwyr, wylio'r recordiadau.

Cewch recordio detholiadau neu ran o raglen. Cewch hefyd grynhoi detholiadau o wahanol raglenni ar un tâp. Cewch olygu rhaglen yr ydych wedi'i recordio, ar yr amod nad ydych yn addasu'r recordiad.

Cewch wneud recordiadau yn y coleg neu gartref. Nid oes raid i chi wneud eich recordiadau eich hun. Caiff darlithwyr neu weithwyr eraill wneud y recordiadau ar eich rhan. Rhaid i chi sicrhau bod y recordiadau'n cael eu labelu, gan gynnwys ar y label ddyddiad a theitl y recordiad a wnaed dan y Drwydded, ynghyd â'r datganiad 'Defnyddir y recordiad hwn i ddibenion addysgol yn unig'.

Caiff myfyrwyr fenthyca recordiadau os gallant wir warantu y byddant yn eu defnyddio i 'ddibenion addysgol' yn unig.

Yr Asiantaeth Trwyddedu Papurau Newyddion (NLA)

Yn unol â Deddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988, mae'n anghyfreithlon gwneud copïau o erthyglau a deunyddiau eraill a gyhoeddwyd mewn papurau newyddion, ac eithrio copïau unigol i bwrpas ymchwil neu astudiaeth breifat a rhai eithriadau prin iawn eraill, oni chafwyd caniatâd perchennog yr hawlfraint neu rywun sy'n gweithredu ar ei ran.

Mae'r NLA'n cynnwys casgliad cenedlaethol o 20 papur newyddion ac ail gasgliad, a elwir yn gasgliad atodol y Deyrnas Unedig, o bapurau rhanbarthol. Mae'r drwydded yn caniatáu copïo o unrhyw bapur newyddion sy'n

gynwysedig yn y casgliadau, hyd at uchafswm o 250 copi o unrhyw un erthygl mewn rhifyn o bapur newyddion penodol. Dylid defnyddio'r copïau i ddibenion rheoli mewnol neu i ddibenion addysgol, ac yn anad dim, ni ddylai'r sawl sy'n derbyn y copïau eu llungopïo.

Ar bob copi, dylid rhoi nodyn amlwg sy'n dweud: "Copïwyd, gyda chaniatâd, o (teitl y Papur Newyddion perthnasol) dyddiedig ...."

Cyhoeddi'r Polisi

Bydd y polisi hwn ar gael yn ddwyieithog i'r cyhoedd ar wefan y Grŵp ac yn llawlyfrau/Amgylchedd Dysgu Rhithiol y rhaglen, a bydd ar gael i'r holl aelodau staff ar Borth y Grŵp.

Cymeradwywyd y Polisi gan: Y Tîm Polisi
Dyddiad Cymeradwyo'r Polisi: Awst 2016
Dyddiad Adolygu'r Polisi: Awst 2017

HE Copyright Policy

Who does this Policy Apply to?

This policy applies to learners undertaking HE programmes which GLLM have been validated to deliver by the following HE awarding organisations;

- Edexcel/Pearson
- Scottish Qualifications Authority (SQA)
- HE programmes validated by Bangor University for delivery by Grwp Llandrillo Menai

Purpose of the Policy

This document sets out Grŵp Llandrillo Menai's position on copyright.

Policy Statement

The Grŵp has a legal obligation to enforce copyright protection in regard to the use of third party materials.

Copyright protects original literary, artistic, dramatic and musical works, sound recordings, films or broadcasts, and the typographical arrangement (layout) of published editions. Books, papers and magazines, music, artwork and photographs, films, television and radio programmes, software and computer games are all protected by copyright. The owner of copyright can licence copies or adaptations of the work (e.g. translations, movie rights to a book etc). Copyright is free and automatic.

It is generally accepted that information found on the Internet is protected by copyright and therefore should be treated in exactly the same way as you would printed works.

This Policy sets out the position of the Grŵp on the use of copyrighted material.

Implementation

Staff

You may copy material if:

- you wrote it, and have not transferred copyright to anyone else then you may copy it
- you have the written permission of the copyright owner to do so
- it was last published more than 70 years ago, or if more than 70 years have passed since the calendar year in which the author died, whichever is the later.

The Grŵp shall own all Intellectual Property created by Staff:

- In the course of their employment and/or the performance of their duties for the Grŵp; or
- Using Grŵp Resources; or
- In the course of duties falling outside of normal duties but specifically assigned to Staff

When compiling your own online content (eg on Moodle courses) make sure that the materials you use are either your own copyright, or you've obtained permission from the copyright holder to put them there. You must not upload images, photographs, pdf files (electronic copies of documents), diagrams etc. or use audio/video clips without first obtaining permission from the copyright holder as this would make you personally vulnerable to copyright infringement.

When linking to external online content as a matter of good practice try to link to another website's home page, rather than to pages below this. If this is not possible as a matter of courtesy it is always good practice to e-mail the sites explaining that you are linking from your site to theirs. Always make clear when linking sites that the user is moving from your site to another copyright holder's site.

The same rules apply even if your electronic content is simply going to be viewed internally (eg on the intranet).

Students
'Fair dealing' allows you to make one copy of 'a reasonable proportion' from a book or periodical in copyright for purposes of research or private study within the following guidelines, without obtaining the specific permission of the copyright owner:

- one article from one issue of a periodical;
- one single paper or article from one set of conference proceedings;
- one complete single chapter from a book;
- one short story or poem from one volume of short stories of poems provided that the item copied does not exceed 10 pages in length;
- a maximum of 5% of a given work
- you may only use your copy for your own private study or research; you may not pass it on to anyone else;
- if you have already obtained a copy of part of a book or one article in an issue of a periodical, as indicated above, you may not make a copy of other material in the same book or issue of a periodical without the copyright owner's written permission.

Copyright licences

The Grŵp has a number of collective licensing schemes, which enables staff (within certain well-defined restrictions) to:

- Make copies and scanned copies of printed materials (The Copyright Licensing Agency 'CLA' licence)
- Make recordings of television broadcasts (Educational Recording Agency 'ERA' licence and Open University 'OU' Scheme)
- Make multiple copies of articles in newspapers for teaching purposes and management information (Newspaper Licensing Agency 'NLA' Licence)

The CLA Licence is the Grŵp's main copyright licence. The licence terms for the Grŵp are the same for HE and FE provision. The CLA acts as an agent for the Authors' Licensing and Collecting Society, the Publishers Licensing Society and various Reproduction Rights Organizations outside the UK.

Unauthorized photocopying of copyright works is an infringement of copyright that can result in legal action or criminal proceedings which could lead to substantial fines and/or imprisonment. The CLA licence allows photocopying from books, journals and magazines.

What this means:

Staff and students within GLLM are permitted to make photocopies from books and journals published in the UK and other counties with which the CLA has reciprocal agreements.

There are limits to the amounts that can be copied under the Copyright Licence. Should you fail to observe these limits you would almost certainly be infringing copyright law.

What is allowed?

The licence enables staff and authorized students (including distance learners) to copy extracts (of text or graphics or a combination of text and graphics) from most books, journals and periodicals published in the UK (and the other Mandating Territories) if the Grŵp owns a copy. The CLA's list of Excluded Categories/Works should also be consulted.

The basic permission to photocopy extends to the photocopying (from paper on to paper) of:

- up to 5% or one complete chapter (whichever is the greater) from a book
- up to 5% or one whole article (whichever is the greater) from a single issue of a journal
- up to 5% or one paper (whichever is the greater) from a set of conference proceedings

- up to 5% or an anthology of short stories or poems or one short story or one poem of not more than 10 pages (whichever is the greater)
- up to 5% or one single case (whichever is the greater) from a published report of judicial proceedings.

These restrictions do not apply to enlarged copies made for partially sighted persons as long as these copies are restricted to such users.

Multiple copies

Multiple copies of licensed material may be made but the number of copies must not exceed the number needed to ensure that each student on the module and the lecturer has one copy. Systematic or repeated copying of the same licensed material or part thereof for any one course of study beyond the limits set out above is NOT permitted.

More information can be found on the CLA website

http://fe.cla.co.uk/

The Educational Recording Agency

The ERA Licence enables the Grŵp to record for educational purposes any radio or television broadcast and cable output of ERA's members, apart from Open University programmes which come under a separate licensing scheme.

The licence covers all kinds of broadcasts (other than Open University programmes and cable/satellite broadcasts). This includes feature films off-air if they are then only be used for 'educational purposes'.

The ERA Licence does not authorize the performance of recordings in front of a private or public audience which has made a payment to see the performance neither does it authorize the use of broadcast material for promotion, administrative or commercial purposes. Otherwise recording, playing back and copying the recordings are covered by our licence.

Students who are enrolled at Grŵp can watch the recordings as can employees who are directly involved in the students' education.

You can record extracts or part of a programme. You can also compile extracts from different programmes on one tape. You can edit a programme you have recorded as long as you do not adapt the recording.

You can make recordings at college or at home. You do not have to make the recordings yourself other lecturers or employees of can make recordings for you. You must ensure that the recordings are labelled with the date and title or each recording made under the Licence together with the statement 'This recording is to be used only for educational purposes'.

Students can borrow recordings if you can honestly guarantee that they would use them for 'educational purposes'.

The Newspaper Licensing Agency

Except for single copies made for the purpose of research or private study and other very limited exceptions, the Copyright, Designs and Patents Act 1988 makes it unlawful, unless permission has been given by or on behalf of the copyright owner, to make copies of articles and other material published in newspapers.

The NLA includes a national repertoire of 20 newspapers and a second repertoire, called the supplemental UK repertoire, of regional papers. The licence allows copying of any newspaper covered to a limit of no more than 250 copies of any one article from an issue of a given Newspaper. The copies are to be used either for internal management or educational purposes and in particular will not be photocopied by the recipient.

Each copy shall be prominently endorsed with a notice stating; "with permission, copied from [title of the relevant Newspaper] dated ...."

Publication of Policy

This policy will be made publicly available bilingually on the Grŵp website, in programme handbooks/VLE and will be available to all members of staff via the Grŵp Portal.

Policy approved by: Tîm Polisi

Policy approval date: August 2016

Policy Review Date: August 2017